

Cleifion sy'n ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch cael cymorth i farw



Crynodeb

Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i benderfynu pa wybodaeth y gallwch ei rhoi i'ch claf am gymorth i farw tra'n gweithredu o fewn y gyfraith. Mae'n bwysig nodi nad yw'r canllawiau'n atal meddygon rhag presgripsiynu meddyginiaethau i leddfu poen neu symptomau gofidus eraill, na rhag addo gwneud hynny.

Dylech chi hefyd ddarllen y canllawiau eraill, Canllawiau ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio a'r archwilydd achos wrth ystyried honiadau fod meddyg yn gysylltiedig ag annog neu gynorthwyo hunanladdiad. Maent yn ymdrin â materion fel ceisiadau am fynediad at ddata o dan y gyfraith diogelu data, ysgrifennu adroddiadau, a gweithredoedd tosturiol gan feddygon sy'n aelodau o deulu cleifion

Cleifion sy'n ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch cael cymorth i farw

Safonau proffesiynol: Canllawiau manylach

Daeth y canllawiau hyn i rym ar 31 Ionawr 2013.

Cafodd y canllawiau hyn eu diweddarau ddiwethaf ar 13 Rhagfyr 2024.

Mae'r safonau arfer da yn berthnasol i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel gweithwyr meddygol proffesiynol ac fel 'chi' yn y canllawiau hyn). Fel gyda'n holl safonau proffesiynol, mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'n gweithwyr proffesiynol cofrestredig i'r graddau y maent yn berthnasol i ymarfer yr unigolyn.

Gallwch weld y fersiwn ddiweddaraf o'n holl safonau proffesiynol trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.

Cynnwys

Pan fo claf yn ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch cael cymorth i farw	1
Pan fo claf yn ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch cael cymorth i farw	3

Pan fo claf yn ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch cael cymorth i farw

- 1** Gall gweithwyr meddygol proffesiynol wynebu sialensiau anodd wrth ymateb mewn ffordd sensitif a thosturiol i glaf sy'n ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch prysuro eu marwolaeth, gan sicrhau ar yr un pryd na fydd eu hymateb yn mynd yn groes i'r gyfraith trwy annog neu gynorthwyo'r claf i gyflawni hunanladdiad.¹
- 2** *Mae Arfer Meddygol Da* yn nodi mewn ffordd eglur bod gwrando ar gleifion, darparu gwybodaeth iddynt, a pharchu eu penderfyniadau a'u dewisiadau yn rhan annatod o arfer da. Rhaid iweithwyr meddygol proffesiynol wneud y canlynol:
 - a.** dangos parch tuag at fywyd dynol
 - b.** sicrhau eu bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eu claf
 - c.** cydymffurfio gyda'r cyfreithiau a'r codau ymarfer sy'n berthnasol i'w gwaith
 - d.** sicrhau bod eu hymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth eu cleifion ynddynt bob amser, yn ogystal ag ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn
 - e.** gwrando ar gleifion a pharchu eu safbwyntiau ynghylch eu hiechyd
 - f.** darparu'r wybodaeth i gleifion y byddant yn ei dymuno neu y byddant ei hangen er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd neu eu gofal iechyd, ac ateb cwestiynau cleifion mewn ffordd onest, i'r graddau ag y bo hynny'n ymarferol, ac mewn ffordd mor lawn ag y bydd y claf yn ei dymuno
 - g.** trin cleifion fel unigolion a pharchu eu preifatrwydd a'u hurddas
 - h.** parchu hawl cleifion cymwys i wneud penderfyniadau am eu gofal, gan gynnwys eu hawl i wrthod triniaeth, hyd yn oed os bydd hyn yn arwain at eu marwolaeth²
 - i.** darparu gofal clinigol da, gan gynnwys triniaeth er mwyn rhoi sylw i boen a symptomau eraill y claf sy'n peri gofid iddynt.
- 3** Yn ogystal, mae canllawiau ynghylch *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau* yn nodi rhwymedigaethau gweithwyr meddygol proffesiynol i wneud y canlynol:
 - a.** trafod eu dewisiadau o ran triniaeth gyda chleifion (gan gynnwys y dewis o beidio â chael unrhyw driniaeth) a chynlluniau ar gyfer triniaeth yn y dyfodol, gan gynnwys y mathau o driniaethau neu ofal y byddai cleifion yn eu dymuno – neu na fyddent yn eu

¹ Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r derminoleg 'diweddau eu bywyd eu hunain' yn hytrach na hunanladdiad ac eithrio wrth gyfeirio'n uniongyrchol at droseddau.

² Ni fydd claf a fydd yn marw o ganlyniad i ddilyniant naturiol eu clefyd ar ôl gwrthod triniaeth i ymestyn eu bywyd, yn cyflawni hunanladdiad. Ymddiriedolaeth GIG Airedale NHS v Bland [1993] 1 All ER 821, Re JT (Oedolyn: Gwrthod triniaeth feddygol) [1998] 1 FLR 48 ac Re AK (Triniaeth feddygol: Cydsyniad) [2001] 1 FLR 129

dymuno – pan na fydd modd iddynt wneud neu fynegi eu penderfyniadau eu hunain mwyach

- b.** creu cyfleoedd i gleifion fynegi pryderon ac ofnau ynghylch datblygiad eu clefyd ac ynghylch eu marwolaeth, ac i fynegi eu dymuniadau.
- 4** Yn ogystal, mae'n nodi mewn ffordd eglur nad oes gofyn i weithwyr meddygol proffesiynol ddarparu triniaethau na fyddant o fudd cyffredinol i'r claf, neu a fyddant yn achosi niwed i'r claf.
- 5** Pan fydd cleifion yn cyfeirio at gynorthwyo hunanladdiad neu'n gofyn am wybodaeth y gallai eu hannog neu eu cynorthwyo i ddiweddu eu bywydau, nid oes modd i barch tuag at ymreolaeth claf gyfiawnhau gweithredu anghyfreithlon.³
- 6** Dylaigweithwyr meddygol proffesiynol wneud y canlynol:
 - a.** bod yn barod i wrando ac i drafod y rhesymau dros gais y claf
 - b.** cyfyngu ar unrhyw gyngor neu wybodaeth mewn ymateb, i:
 - i.** esboniad ei bod yn drosedd i unrhyw un annog neu gynorthwyo person i gyflawni neu geisio cyflawni hunanladdiad, a
 - ii.** cyngor gwrthrychol am y cyfreithlon opsiynau clinigol (fel tawelyddion a gofal lliniarol arall) a fyddai ar gael pe bai claf yn cyrraedd penderfyniad sefydlog i derfynu eu bywyd eu hunain.

Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw hyn yn atal gweithiwr meddygol proffesiynol rhag cytuno ymlaen llaw i leddfu'r boen a'r anghysur gysylltiedig ar gyfer claf o'r fath pe bai'r angen yn codi ar gyfer rheoli symptomau o'r fath.

- c.** bod yn barchus a thrugarog a parhau i ddarparu gofal priodol ar gyfer y claf
 - d.** archwilio dealltwriaeth y claf o'u cyflwr presennol a chynllun gofal
 - e.** asesu a oes gan y claf unrhyw rai heb eu bodloni anghenion gofal lliniarol, gan gynnwys poen a rheoli symptomau, seicolegol, cymorth cymdeithasol neu ysbrydol.
- 7** Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw beth yn ycanllawiau hyn yn atal gweithwyr meddygol proffesiynol rhag cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau neu driniaeth er mwyn lleddfu poen neu symptomau gofidus eraill. Mae *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau* yn rhoi dyletswydd ar weithwyr meddygol proffesiynol i ddarparu gofal o'r fath.

³ Mae'n rhaid i feddygon sy'n ansicr ynghylch sut y gellir gweld gweithred benodol yn y gyfraith geisio cyngor cyfreithiol cyfredol. Gellir cael hwn gan sefydliad amddiffyn, cymdeithas broffesiynol neu adran gyfreithiol cyflogwr.

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

Ymunwch â'r sgwrs



[@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)



facebook.com/gmcuk



linkd.in/gmcuk



youtube.com/gmcuktv

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar gmc@gmc-uk.org.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

© 2013 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd, a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/WPSAID/1224